# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

HYDREF 1976

RHIF 34



# Dathlu ym Mhenarth

**Ym mis Hydref fe fydd yr ail Ŵyl Hydref ar ein pennau ni — Gŵyl flynyddol lle cynhelir llawer o weithgareddau Cymreig yn y dre — yn Gymraeg a Saesneg. Cais ydy'r ŵyl i adfywio hen draddodiadau Cymreig a oedd yn gyffredin bob blwyddyn flynyddoedd yn ôl. Er mor uchelgeisiol yw rhaglen yr Ŵyl Hydref eleni, ac er ei bod yn para'n hwy na'r Ŵyl Hydref o'r blaen — dydy'r ŵyl yn ei ffurf bresennol ddim hanner mor gynhwysfawr â'r ŵyl a gynhelid yn nechrau'r ganrif (doedd yno ddim teledu i ddenu pawb y pryd hynny). Ond er hynny fe allai'r hen ffurf ar y traddodiad ddychwelyd, os cynhelir Eisteddfod ym Mhenarth yn y dyfodol agos.**

Fe gynhelid yr hen ŵyliau ar ben y clogwyni ar y pentir ym Mhenarth — lle gwelwyd y coelcerthi'n llosgi am filltiroedd o gwmpas. Cynhelid gweithrediadau poblogaidd yn y capeli hefyd, er enghraifft fe gynhaliwyd cyngherddau pythefnosol ym Mhenuel, Capel y Bedyddwyr, tuag at ryw elwau penodedig — ac ar draws yr heol yng Nghapel Bethel cynhaliwyd cyngerdd fel yr isod yn aml iawn-Deuawd Piano — Mrs Morgan; Adroddiad — "The Blind Boy" — Mr S. Caddy; Adroddiad — "Yr Iesu a Wylodd" — y meistr Dan Lewis; Deuawd — "Beti Wyn" — T. a S. Morgan; Cân — "How did you leave the Pigs Sammy?" — Mr T. Davies; Adroddiad — "Galwad i Bechadur" — y meistr Lewis Lewis; Cân — "Hiraeth" — Mr T. Morgan; Deuawd "Very Suspicious" — Miss Webb a Mr Tom Davies; Adroddiad — "Taith y Cristion" — D. Lewis etc.

Yn y 1890 au a'r deng mlynedd cyntaf o'r ganrif newydd cynhaliwyd Eisteddfodau'n flynyddol, ac roedd "Eisteddfod Penarth" yn un o'r pwysicaf ohonynt.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd "Cymanfa Undebol Gŵyl Dewi" yng Nghapeli Penuel, Bethel a Bethania yn eu tro. Fe barodd yr ŵyl yma hyd at y flwyddyn 1960, lle cynhaliwyd y gwasanaeth Cymraeg olaf oll yng Nghapel Penuel. Yna yn y flwyddyn 1970 fe wnaeth Capel Bethania ddilyn yr un drefn. Ac yn wir erbyn heddiw Capel Bethel ydy'r unig Gapel Cymraeg ym Mhenarth. Ar un adeg roedd yna bedwar capel Cymraeg yn y dre — Capel Sardis (Eglwys y Presbyteraidd Heol Plassey) oedd y pedwerydd ohonynt, ond yn y flwyddyn 1880 fe benderfynodd y gynulleidfa gynnal y Gwasanaethau yn Saesneg yn (parhad ar dud 12)



# Pêr Ganiedydd

Brodor o Dalybont, Ceredigion yw D. Lloyd Davies. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth. Wedi iddo wasanaethu yn y Gwarchodlu Cymreig, bu'n weithiwr amaethyddol am gyfnod cyn dod i Gaerdydd ym 1965 yn aelod o staff Amgueddfa Werin Cymru, lle mae nawr yn un o oruchwylwyr y gofalwyr.

Fel unawdydd o fri yr adweinir Lloyd Davies gan lawer o bobl. Dechreuodd gystadlu yn blentyn mewn eisteddfodau, a phan ddatblygodd ei lais cafodd hyfforddiant gan Evan Maldwyn Jones, Machynlleth, ac yn ddiweddarach, gan Kurt Oldag, Berlin pan enillodd brif wobr eisteddfod y Gwarchodlu yn yr Almaen ym 1952. Er iddo gael cynnig swydd broffesiynol fel unawdydd gyda'r gwarchodlu, dychwelodd i'w fro enedigol a pharhaodd i gystadlu drwy ganolbarth a Gogledd Cymru gan ennill dros gant o gwpanau dan 25 oed. Ym 1956, cafodd hyfforddiant pellach gan y bariton enwog, Redvers Llewellyn.

Yn ddiweddarach, dechreuodd ganolbwyntio llai ar gystadlu a mwy ar gyngherddau a rhaglenni radio megis "Ser y Siroedd", "Hob y Deri Dando", "Aelwyd y Gan" ac ati. Gyda'i lais cyfoethog a'i driniaeth feistrolgar o gynifer o glasuron, diddanodd lu o bobl drwy Gymru gyfan. Deil i ganu'n rheolaidd a'i brif ddiddordeb y tu allan i oriau gwaith ydyw cerddoriaeth — opera ac oratorio yn arbennig. Pleser i'r sawl a'i clyw ydyw gwrando ar lais cyhyrog y bariton talentog hwn a roddodd y fath fwyniant i gynifer dros Gymru gyfan.

JOHN ROBERTS

# AT Y CYMDEITHASAU

**A hithau'n ddechrau tymor y Gaeaf apeliwn atoch, fel Pwyllgor Rheoli Y DINESYDD, i anfon eich cyfraniad i'r Trysorydd, Y Br. Geraint Walters, Dorwen, The Rise, Llanishen, cyn gynted ag sy bosibl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *naw* Cymdeithas yn unig a gyfrannodd tuag at gostau sylweddol cynhyrchu'r rhifynnau. Diolchwn yn arbennig i'r Cymdeithasau hynny (rhai crefyddol a seciwlar) am eu cefnogaeth, a gobeithiwn y byddant mor hael eto eleni â'r llynedd.**

**Y mae gwir angen cefnogaeth arnom a gallai holl Gymdeithasau Cymraeg y ddinas fod yn noddwyr sylweddol iawn. A fyddech, fel Swyddogion y Cymdeithasau hyn, cystal â gosod yr apêl hon gerbron eich Pwyllgorau? Diolch yn fawr.**

## OEDRAN TEG

Llongyfarchion i Mrs Evans, 21 Heol Tŷ'n y Coed ar gyrraedd ei phen blwydd yn 94 oed. Mae'n anodd i lawer amgyffred ystyr hyn — ond faint all ymffrostio, fel y gallai Mrs Evans, ei bod wedi gweld Cymru yn y flwyddyn 1882?

Rhwydd hynt, Mrs Evans. Fe ofalwn sôn amdanoch eto yn 1982!

# Y Wraig a'i Chymdeithas

Ym 1976/77 bydd Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd yn cynnal pedwar cwrs a fydd yn bwrw golwg dros sefyllfa merched yn ein cymdeithas. Bydd cynllun y cyrsiau yn un digon ystwyth, a gobeithir y bydd y pynciau i'w trafod yn codi'n naturiol o ddiddordebau arbennig aelodau'r dosbarthiadau eu hunain: y math o bynciau y gobeithir ymdrin â hwy yw Magwraeth, Addysg, y Teulu, Gwaith, y Gyfraith, Iechyd, Crefydd a Gwleidyddiaeth o safbwynt menywod fel Merched, Mamau, Gwragedd, Chwiorydd, Gweithwyr a Dinasyddion.

Cynhelir y cyrsiau yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Bontfaen: mae'r pedwerydd cwrs, ym Mhontypridd, wedi ei ohirio hyd fis Ionawr oherwydd y prinder dŵr. Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghaerdydd bob nos Fawrth, o Hydref 5ed hyd Ragfyr 7fed yn Adeilad y Celfyddydau, Parc Cathays, 7.00 - 9.00p.m.

Dim ond drwy gyfrwng y Saesneg y cynhelir y cyrsiau hyn, yn anffodus, ond os bydd digon o Gymry Cymraeg â diddordeb yn y pwnc, hwyrach y gellir trefnu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r pedwar cwrs yma, cysyllter â: Gill Boden, Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol Y Parc, Caerdydd. Ffôn: 44211 est. 2547 (neu 2425).

### GWERTH YR HYN OLL SYDD GENNYT

Mae chwyddiant yn gwasgu ar bawb y dyddiau hyn, ac mae ein haddoldai yn dioddef cymaint â neb. Y gair sy'n llywodraethu yn Dewi Sant yw Cwota — sef y swm blynyddol y disgwylir i aelod ei dalu bob blwyddyn. Mae Cwota Dewi Sant yn awr yn £1,380 y flwyddyn, ac yn galw am £6 oddi wrth bob aelod.

Rydych wedi clywed droeon o'r blaen fod yr organ yn fyr ei wynt ac yn galw am ymgeledd. Fe fydd trin ei *organs* yn golygu bil o ryw £6,000. At hynny, roedd y ficerdy wedi mynd yn wael ei gyflwr ac mae ei atgyweirio mewn costio miloedd i'r eglwys. Rhoddwch y biliau yma i gyd at ei gilydd, ac fe fedrwch aralleirio'r adnod y cyfeirir ati yn y pennawd!

## colofn sbectol * SIAN

### MALU AWYR

Mae Swyddfa'r Post yn ymfalchïo yn eu llythyr awyr dwyieithog newydd a gyhoeddwyd ar y 29ain o Fedi. Heblaw am y geiriad dwyieithog (ag eithrio'r label post awyr ei hun sy'n dwyn y chwedl ddwyieithog ryfedd BY AIR MAIL/Airletter, , ceir lluniau hardd o wahanol agweddau ar Fywyd Cymru ar dri phanel y llythyr. Yn anffodus, mae harddwch yn costio'n ddrud y dyddiau 'ma lle gellwch brynu ffurflen llythyr awyr cyffredin am 10½c, bydd y llythyr awyr Cymraeg hardd yn costio 12c, "i dalu am gost y dylunio" chwedl Swyddfa'r Post. Am 1½c o elw ar bob llythyr a werthir, mae'n siwr mai dym: un o'r dyluniadau drutaf yn hanes argraffu.

### Y BRAGWYR A'R BRYDDEST

Mae'n debyg Fod Cwmni Bragwyr Cymru wedi cynnig rhoddi'r Goron ar gyfer cystadleuaeth y Bryddest yn Eisteddfod Caerdydd. Gallaf ragweld gwrthwynebiad i'r cynnig caredig hwn o rai cyfeiriadau; rwy'n siwr y byddai'n well gan rai bobl weld cwmni pop yn hytrach na chwmni cwrw yn noddi'r 'Steddfod. Cwmni 'Corona' hwyrach?

### PWYLLGOR RHEOLI RŴLS O.K.?

Hwyrach y clywodd rhai ohonoch am y digwyddiadau rhyfedd yn Nhafarn y Romilly yn Nhreganna yn ddiweddar, pan ofynnwyd i rai o aelodau'r Clwb Rygbi i beidio â siarad Cymraeg yno am fod hynny'n gwneud y cwsmeriaid eraill yn anghysurus! Da gallu adrodd fod y sefyllfa hon wedi gwella bellach, ar ôl danfon yr "heavies" i mewn un noson. Do, aeth Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd draw i'r Romilly am beint y noson o'r blaen — ac roedd cipolwg ar y giwed fygythiol hon yn ddigon i'r tafarnwr anfoesgar. Cafodd pawb ei beint a sgwrs yn Gymraeg heb ddim trafferth pellach.

### RHEOLWR RŴLS O.K.?

Dywedodd deryn bach wrtha'i y diwrnod o'r blaen fod y BBC yn gwneud ymdrechion glew i arbed dŵr drwy ddefnyddio llai o lestri yn y cantîn (fel na fydd angen cymaint o olchi lan wedyn). O ganlyniad, mae pawb yn bwyta'u bwyd oddi ar blatiau papur, a does neb yn cael soser gyda'i gwpan te neu goffi — ag eithrio'r Br. Owen Edwards, sy'n cael soser bob tro. Staff y cantîn wedi eu rhwygo rhwng dyletswydd cymdeithasol a dyledus barch — ac yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad!

### CŴN POETH A HAMBURGERS

Wedi'r holl arbrofi gyda hufen ia a chŵn poeth yn ystod yr haf, mae Canolfan yr Urdd wedi symud ymlaen at Hamburgers erbyn hyn. Wel, hynny yw, mae aelodau Cerddorfa Ieuenctid Hamburg, yr Almaen wedi bod draw yng Nghymru yr wythnos hon, yn westeion i Ganolfan yr Urdd — bydd aelodau o Gôr Ieuenctid yr Aelwyd, o dan arweiniad Gareth Glynne, yn mynd i ymweld â Hamburg yn eu tro yn ddiweddarach a rhoi nifer o gyngherddau yn rhan o'r Wyl yno. Mae'r Gerddorfa wedi bod yn perfformio mewn ysgolion lleol yng Nghaerdydd a'r Barri; gellid eu clywed mewn cyngerdd cyhoeddus yn Eglwys Gadeiriol Llandaf nos Sadwrn, Hydref 9fed.

### DIWEDD Y GÂN

Roedd yn ddrwg gennym glywed fod Côr yr Aelwyd ei hun yn cael ei gyfrif yn rhy hen i fynd i gymryd rhan mewn Gŵyl Ieuenctid yn Hamburg (dyna pam mae 'na Gôr Ieuenctid yn yr Aelwyd bellach). Gobeithio nad y siom honno sy'n gyfrifol am y ffaith fod Côr Aelwyd Caerdydd yn dod i ben y mis hwn, ar ôl blynyddoedd o waith gwych. O ddifri, mae hyn yn newyddion trist iawn: ni allwn ond diolch i'r côr hwn, a'i arweinydd dawnus Mr Alun Guy, am gymaint o bleser yn y gorffennol.



*FALMAI JONES*

### GRADD RADDOL

Llongyfarchiadau gwresog i Falmai Jones, yr actores adnabyddus, ar ennill ohoni radd B.A. (Hons) mewn Swoleg ar ôl pymtheg mlynedd o astudio dygn mewn dosbarthiadau nos. Pan ddaw ei hymrwymiad presennol gyda Theatr yr Ymylon i ben fe fydd Ms Jones (sy'n enedigol o Ddyffryn Chubut yn y Wladfa) yn cynnal cwrs o ddeg darlith, drwy gyfrwng y Gymraeg, ar Fywyd Rhywiol y Mwydyn Cyffredin. Cynhelir y dosbarthiadau yn Nhafarn y *New Ely* o dan nawdd Adran Efrydiau Tra Allanol y Brifysgol (tâl ymaelodi 12 gini). Mae'n siwr y bydd y cwrs hwn yn un eithriadol o boblogaidd felly peidiwch ag oedi — cofrestrwch nawr!

### MEINI GWAGEDD

Fe ŵyr pawb ohonoch fod meini gorsedd ym mharc Cathays; rhai pitw, lawer yn rhy fach ar gyfer seremoni'r cyhoeddi a gynhelir ar yr ail o Orffennaf, 1977. Ond ble mae meini gorsedd eisteddfod 1960? Fe ŵyr Y Dinesydd, ond tybed a wyddoch chi? O'i roi mewn ffordd arall, pe baech chi'n gyfrifol am feini gorsedd ar ôl i'r eisteddfod adael, beth wnaech chi â nhw? Does dim sôn amdanynt mewn unrhyw faes, ond maent rywle ynghanol y ddinas! Nawr, ble? (Ceir yr ateb yn y rhifyn nesaf.)

Mae crefydd, medd rhywun wedi mynd i gostio'n ddrud — ond mae Cristnogaeth yn para am ddim!


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# TUDALEN Y DYSGWYR

## NEWYDDION

### DEWCH I WERSYLL LLANGRANNOG!

*Mae cwrs oedolion yn cael ei drefnu i ddysgwyr o bob safon yn Llangrannog am benwythnos, o'r 5-7fed o Dachwedd 1976. Gobeithio y gwnaiff athrawon dosbarthiadau nos Caerdydd a'r cylch dynnu sylw eu myfyrwyr at y cwrs hwn. Mae rhyw ramant rhyfedd yn perthyn i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog, a phob tro y byddaf yn mynd â grŵp o oedolion yno ar gwrs penwythnos, byddaf yn cael boddhad mawr o weld y mwynhad a gaiff pobl wrth ddysgu'r iaith mewn amgylchedd mor fendigedig o heddychlon.*

*Bydd cyfle i ddefnyddio'r iaith nid yn unig mewn grwpiau iaith dan ofal athrawon profiadol, ond hefyd wrth farchogaeth ceffylau, nofio yn y pwll nofio dan do, neu wrth fynd am dro dros y bryn i draeth Lochtyn neu Gefn Cwrt. Bydd digon o gyfle i ganu ac i ddawnsio hefyd, rwy'n siwr! Beth am ddod? Bydd bws yn gadael Gerddi Soffia am 6.00 o'r gloch nos Wener ac yn dychwelyd i Gaerdydd tua 7.00 o'r gloch nos Sul.*

*Pris y cwrs fydd £9 (gan gynnwys y bws) neu £7.50 os ydych am deithio yno yn eich modur eich hun. Os ydych am ddod, ysgrifennwch air ata'i yn dweud ers faint o amser rydych chi wedi bod yn dysgu a beth yw eich safon. Cofiwch anfon yr arian hefyd. Brysiwch neu fe fydd y cwrs yn llawn. Ysgrifennwch i 54 Fidlas Road, Llanishen, Caerdydd.*

### CWRS Y DYFFRYN

*Mae cwrs arall ar gael yn y Dyffryn ddechrau mis Rhagfyr. Os ydych am le ar y cwrs hwn, ysgrifennwch ar unwaith at Y Warden, Tŷ Dyffryn, Sain Nicolas, ger Caerdydd.*

### DOSBARTHIADAU'N AIL-DECHRAU

*Mae'r dosbarthiadau nos yn Ne Morgannwg wedi ail-ddechrau erbyn hyn. Pob lwc i bawb sy'n mynd ati i ddysgu o'r newydd. Braf oedd cael galw i mewn i weld rhyw 16 o bobl yn ymlafnio'n galed o dan lywodraeth Gwilym y noson o'r blaen yng Nghanolfan yr Urdd ar y Cwrs Wlpan. Mae'n ysbrydoliaeth i weld y bobl yma'n ymlafnio ac aberthu i ddysgu'r iaith. Roedd hi'n hyfryd gweld yr holl bobl ifanc yn y dosbarth — mae dyfodol ein hiaith yn dibynnu'n helaeth iawn ar y dysgwyr hyn.*

### DOSBARTHIADAU ERAILL

*Mae'n rhaid diolch yn fawr i Adran Efrydiau Allanol y brifysgol am baratoi nifer o gyrsiau i bobl sydd ar fin croesi'r bont; rwy'n siwr y dylai'r cyrsiau yma fod yn boblogaidd. Mae dosbarth cadw'n heini ("keep ffat", mae'n ddrwg gen i, "Keep ffit") y dynion wedi ail-ddechrau yn Radyr eleni eto. Doedd dim un dysgwr yn y dosbarth llynedd — mae croeso i rywun sydd am ymuno eleni. Mae e'n lle da iawn i ddysgu "ansoddeiriau"! Fe fydd dosbarth cadw'n heini y merched yn dechrau ar ôl y Nadolig — felly wragedd — ewch ati!*

### LLYFRAU DYSGU CYMRAEG

*Mae rhai athrawon wedi fy ffonio i'n ddiweddar i ofyn pa lyfrau sy'n cael eu defnyddio fwyaf mewn dosbarthiadau nos ar hyn o bryd. I athrawon newydd, hoffwn awgrymu i chi ddilyn un o'r ddau gwrs yma:*

*1) Dewch i Ddysgu Cymraeg, Llyfr 1 a 2 (Cwrs yr Uned Iaith)*

*2) Cwrs Cymraeg Llafar, Llyfr 1 a 2 (Cwrs gan D.L. James)*

*Dyma'r ddau gwrs mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd ond wrth gwrs, mae llawer o athrawon profiadol yn dilyn cyrsiau eu hunain. Tybed a ydy pob athro neu athrawes Wlpan yn gwybod am gwrs Cen Cên?*

### CHWEDLAU CYMRU

*O son am lyfrau: llyfr bach diddorol a defnyddiol iawn i ddysgwyr yw "Chwedlau Cymru i Ddysgwyr" gan Eiry Palfrey a gyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen yn ddiweddar. Mae'r straeon enwog yma, Blodeuwedd, Llyn y Fan Fach, Branwen ac ati, wedi cael eu hadrodd yn syml a chywir ac mae'r eiffa newydd yn cael ei hegluro'n drwyadl. Prynwch gopi ar unwaith — pris 50c.*

### A BETH AMDANOCH CHI?

*Cofiwch am gwrs Llangrannog a chwrs y Dyffryn. O ie, rwy wedi cael un cais yn barod — o Norwich — chware teg, ynte? A beth am i rywun ysgrifennu rhywbeth ar gyfer y dudalen hon? Naill ai erthygl gan ddysgwr, neu erthygl gan unrywun arall am unryw beth a fyddai'n ddiddorol i'r dysgwyr, er mwyn cael tipyn o amrywiaeth i'r golofn yma.*

*JOHN ALBERT*

### GEIRFA


*rhamant* — romance
*amgylchedd* — environment
*heddychlon* — peaceful
*marchogaeth* — to ride
*ymlafnio* — to toil, struggle
*llywodraeth* — control, rule (also "government")
*ysbrydoliaeth* — inspiration
*aberthu* — to sacrifice
*Adran Efrydiau Allanol* — Department of Extra-Mural Studies
*ansoddeiriau* — adjectives
*cyhoeddi* — to publish (also "to announce")
*trwyadl* — thorough

## Gwerslyfrau Newydd

Mae Cyngor Ysgolion Sul Cymru newydd gyhoeddi cyfres newydd sbon o werslyfrau ysgol Sul ar gyfer blwyddyn newydd yr Ysgol Sul a oedd yn dechrau ym mis Medi. Mae'r gwerslyfrau hyn ar gyfer plant, ieuenctid ac oedolion POB ysgol Sul o BOB enwad, ac y mae'n sicr y bydd galw mawr amdanynt.

Bydd y Cyngor yn trefnu cyfres o gynadleddau drwy Gymru gyfan i hyfforddi'r sawl a fydd yn eu defnyddio; am wybodaeth bellach ynglŷn â'r rhain, cysyllter ag Ysgrifennydd y Cyngor, Y Parch J. Haines Davies, Goleugell, Ffordd Cadwgan, Colwyn (ffôn 55463) neu â Rheinallt A. Thomas, Y Coleg Normal, Bangor (ffôn 2122 neu Llanfairpwll 488). Am ragor o fanylion ynglŷn â'r llyfrau eu hunain, danfoner at y Cyhoeddwyr sef Tŷ John Penry (llyfrau o dan 11 oed) neu Llyfrfa'r M.C., Caernarfon (dros 11 oed).


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

# Y Gymdeithas Lenyddol

**Bydd y Gymdeithas Lenyddol yn cychwyn ar ei phumed tymor ym mis Hydref mewn cartref newydd. Wedi i'r swyddogion fod yn chwilio'n aflwyddiannus am beth amser am le i gwrdd, daeth Cyngor y Celfyddydau i'r adwy, ac yn ORIEL, siop lyfrau ac Oriel Gelf y Cyngor yn Heol Siarl y bydd y Gymdeithas yn cwrdd eleni.**

Ymdrechion dygn Mr Wynne Lloyd, Ysgrifennydd diwyd ac ysbrydoledig y Gymdeithas, sydd wedi bod yn gyfrifol, i raddau helaeth iawn, am ffyniant y Gymdeithas dros y pedair blynedd ddiwethaf. Colled fawr i ni i gyd felly yw'r ffaith ei fod wedi gorfod rhoi'r gorau i'r swydd hon eleni, a mawr obeithiwn y gallwn ddal i edrych ymlaen at gael ei gwmni yn y cyfarfodydd bob mis.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Fercher, Hydref 13eg am 7.30p.m. pan fydd Mr J. Iorwerth Davies, Llyfrgellydd Penfro, yn son am "Sensoriaeth". Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn ac i gyfarfodydd eraill y flwyddyn:

RHAGLEN 1976-77

Tachwedd 10 I'w gyhoeddi.; SENSORIAETH
Rhagfyr 8 Dr Ceinwen Thomas a Mr Illtyd Lewis CYMRAEG BYW
Ionawr 8 W.R. Evans WALDO
Chwefror 12 T. Llew Jones BOIS Y CILIE
Mawrth 12 D. Myrddin Lloyd TRIBANNAU MORGANNWG.

### DIOLCH AM Y CYNHAEAF

Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch Dewi Sant ar y trydydd o Hydref. Gwasanaethwyd gan Y Parchedig A.J. Davies, B.A., ficer Aberteifi. Estynnwyd croeso cynnes i bawb. Yn y gorffennol, mae caredigion o bob enwad wedi troi i mewn i'r ŵyl.

Efallai y bu'n broblem harddu'r eglwys eleni am fod y sychder wedi prinhau'r blodau. "Dŵr, dŵr, dŵr, i bob sychedig un...!" Purion cofio fod y blodau wedi dioddef cymaint â neb yn ystod yr haf a aeth heibio.

### LLYFFANTOD A LLIFOGYDD?


Y llynedd — streic gofalwyr ysgolion; y flwyddyn gynt — yr wythnos dridiau; eleni — y syched mawr. Cychwyniad hunllefus saith pla Cwm Rhymni!

Yr ochr ddiwylliannol — cymdeithasau, dosbarthiadau nos ysgolion — yw'r pethau cyntaf i ddioddef mewn argyfwng ac nid yw eleni yn eithriad. Eisoes bu rhaid gohirio'r Wlpan a drefnwyd yng Nghaerffili ar gyfer y tymor hwn ac, yn awr, gobeithir ei gynnal yn y Gwanwyn. Roedd y Gymdeithas Gymraeg yng Nghaerffili hefyd wedi gobeithio defnyddio Ysgol Gymraeg y dref ond, bellach, ar fyr rybudd, a thrwy garedigrwydd swyddogion capel Bethel sicrhawyd y festri am y mwyafrif o gyfarfodydd y flwyddyn. Mae nifer fawr o ddosbarthiadau nos Cymraeg wedi'u canslo, dros dro beth bynnag, ond ni effeithir ar ddosbarth allanol y Brifysgol dan arweiniad W.J. Jones yn y Ganolfan Athrawon.

### CYMDEITHASAU CYMRAEG

Daeth Hywel Teifi Edwards i gychwyn rhaglen Cymdeithas Caerffili gyda darlith liwgar ar Eisteddfodau'r Fenni gyda gwers amserol i wŷr Gwent yr oes bresennol. Gerwyn Griffiths, Caerfyrddin, fydd yn llywio'r cyfarfod nesaf ar Hydref 4 gyda thaith o amgylch gwledydd Ewrop — ar ffilm a thâp. Ar nos Wener, Tachwedd 12, cynhelir noson lawen yng nghwmni Cymmrodorion Dowlais.

## NEWYDDION CWM RHYMNI



Mae 'n draddodiad bellach i aelodau Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber gychwyn y tymor gyda gwibdaith, ac eleni aeth llond bws i ymweld â dinas Coventry a sicrhawyd aelod o adran bensaernïol y ddinas i'w harwain o amgylch yr eglwys gadeiriol. Islwyn Jones, y Barri, fydd yn cynnal y cyfarfod nesaf a gynhelir yn festri Beulah ar Hydref 13. Ei destun fydd 'Pobl Godre'r Mynydd', sef nodiadau ar rai o gymeriadau mwyaf lliwgar ardal Brynaman.

### CELL YN NHRE'R CASTELL

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghaerffili sefydlwyd cell leol o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Anerchwyd y cyfarfod gan Marc Phillips, Cyn-ysgrifennydd y mudiad ac etholwyd Mrs Margaret Griffiths yn ysgrifenyddes y gell. Gellir derbyn rhagor o wybodaeth am y gell drwy gysylltu â Margaret (Ffôn: 867909).

### MERCHED Y WAWR

Y Cwlwm sy'n Creu oedd teitl sgwrs Robin Gwyndaf i gyfarfod cyntaf y tymor o gangen Caerffili o Ferched y Wawr a soniodd yn bennaf am ddyddiau ei lencyndod yn ardal Cerrigydrudion. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, Hydref 14, yng Nghanolfan y Twyn a disgwylir Mrs Marged Jones, Y Bala, Cyn-Lywydd Cenedlaethol y mudiad, i annerch.

### YR URDD YNG NGWENT

Am resymau amlwg mae Cwm Rhymni wedi'i gynnwys erioed fel rhan o Went o safbwynt gweinyddiaeth yr Urdd. Mae llawer o waith cenhadol i'w wneud ar ochr ddwyreiniol afon Rhymni ac araf yw'r cynnydd yng Nghymreictod y Sir. Serch hynny mae'r awdurdod addysg wedi gorfod ymateb i'r galw am gynnwys y Gymraeg ar daflen ddysgu'r ysgolion uwchradd ac mae mwy o athrawon yn dysgu Cymraeg yn y Sir heddiw nag erioed. Mae pwyllgor Sir yr Urdd yn ymgyrchu'n gyson i wella'r sefyllfa ac ar Hydref 7 gwahoddir prifathrawon y Sir a'r swyddogion addysg i weld y ffilm 'Dyma'r Urdd' yng ngholeg Caerllion. Cyflwynir y ffilm gan Gyfarwyddwr yr Urdd, Cyril Hughes.

# Colofn yr Ysgolion Meithrin

Eisoes y mae bwrlwm a brwdfrydedd i'w deimlo ar ddechrau blwyddyn newydd ym mhob un o Gylchoedd Meithrin De Morgannwg, a llawer o wynebau bach newydd yn prysur ymgartrefu a chyfarwyddo â'r cam cynta i'r byd mawr! Er mawr ryddhad i mi, mae gan bob cylch athrawes a chynorthwywyr. Mae amal i Gylch wedi cael athrawes newydd ac rwy'n bwriadu trefnu darlith gan Mrs Mair Robbins cyn diwedd Tachwedd i geisio rhoi cyfarwyddyd a syniadau i athrawon ar sut i gyflwyno ail iaith i blant tair oed. Digymraeg yw'r mwyafrif o blant ein cylchoedd. Nid yw dyddiad y Ddarlith wedi'i benderfynu eto.

Ar wahan i weithgarwch beunyddiol y cylchoedd, testun sgwrs pawb yw'r daith dren i Lundain ar y 16eg o Hydref. Os ydych am ymuno â ni, cysylltwch rhag blaen â Mrs Tegwen Evans, Ffôn 754559. Yn ddios, mae hon yn fargen: £3.75 am docyn nôl a blaen. Ond cofiwch, os byddwch chi'n gwneud eich siopa Dolig yn Llundain, peidiwch â phrynu cardiau yno — mae digon o rai lliwgar ar werth gan y Mudiad (40c am 10). Cynlluniwyd y cardiau gan blant o Gylchoedd Dinas Powys, Caergybi a Llangefni.

Y mae Cylch Pentwyn yn barod i'w agor — mae 'na blant, athrawon a llond garej un teulu o offer a theganau — ond ein bod ni'n dal i ddisgwyl am ddyddiad agor gan yr awdurdodau sy'n gosod yr ystafell inni. Mae Cylch newydd yr Eglwys Newydd fel petae mewn bod erioed Agorwyd y Cylch yn swyddogol gan y Cyfarwyddwr, Hywel D. Roberts fis yn ôl ac y mae awyrgylch hynod hapus yno.

Carwn gyfeirio, nid am y tro cynta mi wn, at Gylch Mam a'i Phlentyn sy'n cyfarfod yn Festri Heol y Crwys bob pnawn Iau. Mae'r fenter yn llwyddiannus ac mae'r mamau Cymraeg yn awyddus i gynnal dosbarth dysgu Cymraeg i famau di-Gymraeg sydd am i'w plant gael addysg ddwy-ieithog. Rhwydd hynt i'r fenter yma.

Mae Cylch Radur wedi cael cartre newydd yng Nghlwb Tennis Radur sy'n awyrgylch dipyn brafiach na chamu dros gerrig beddau i'r ystafell fach oedd ganddynt o'r blaen. Bydd cyfle yn y cartre newydd i'r plant chwarae allan ar lawnt a mynd am dro i'r coed.

Hei lwc y gallaf roi hanes agor Cylch Pentwyn yn y rhifyn nesaf ac y byddaf wedi gallu braenaru'r tir mewn ardal arall hefyd.

SHAN EMLYN

# Cyngerdd gan Gôr Trelawnyd

Cynhelir Cyngerdd Mawreddog gan Gôr Meibion Trelawnyd (Sir y Fflint) yng Nghapel y Tabernacl nos Sadwrn, Hydref 23ain. Bydd y cyngerdd, a gynhelir o dan nawdd Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys, yn cychwyn am 7.30p.m. ac arweinir gweithgareddau'r noson gan y digrifwr enwog, Mr John Albert Evans. Bydd yr elw i gyd yn cael ei roi gan Heol y Crwys i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978. Cyfle felly i fwynhau noson ddifyr — a chynnig help llaw i'r Steddfod ar yr un pryd.

# Galw am Fwy o Arian

**Danfonwyd llythyr chwyrn gan Gyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru, Mr Aneurin Thomas at y Prif Weinidog a holl Aelodau Seneddol eraill Cymru, ddydd Iau, Medi 16, yn beirniadu'r sefydliad Ffilmiau Prydeinig yn llym am iddo wrthod rhoi cyfran deg o'r grant a dderbynia oddi wrth y Llywodraeth i Gymru. Yr hyn y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru'n ei gyfrif yn gyfran deg — a'r hyn a dderbynir yn gyffredinol fel cyfran Cymru o gyfanswn gwariant gwledydd Prydain — fyddai 7% o grant y sefydliad. Ar hyn o bryd, dim ond 0.6% o'i grant y bydd y sefydliad yn ei gyfrannu i Gymru.**

Er ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 1974, llesteiriwyd Pwyllgor Ffilmiau Cyngor Celfyddydau Cymru'n barhaol oherwydd prinder eithafol yr adnoddau ariannol a oedd ar gael er cynorthwyo gweithgareddau ffilm. Mae un aelod o'r Pwyllgor (gwneuthurwr ffilmiau proffesiynol adnabyddus) wedi ymddiswyddo yn ystod y mis diwethaf. Y prif reswm a roddodd dros wneud hynny oedd anallu'r Pwyllgor i symud ymlaen o gwbl oherwydd diffyg arian.

"Ers amser maith, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r anfodlonrwydd a deimlir gan aelodau'r Pwyllgor Ffilmiau. Ar ran y Cyngor ceisiais, mewn cyfarfodydd gyda Swyddogion y Sefydliad Ffilmiau Prydeinig ac mewn un lle'r oedd Cadeiryddion y Sefydliad Ffilmiau Prydeinig a Chyngor Celfyddydau Cymru yn bresennol, i sicrhau ymrwymiad mwy gan y Sefydliad yng Nghymru," meddai Mr Thomas. "Er ei sefydlu, nid yw'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig wedi gwneud dim bron i gefnogi gweithgareddau ffilm yng Nghymru ac y mae'n hen bryd unioni'r sefyllfa hon. Ni chymerodd Cyngor Celfyddydau Cymru gamrau fel hyn erioed o'r blaen i dynnu sylw at fethiant corff enwebedig Lloegr/Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau tuag at Gymru."

*Dyddiad: Dydd Gwener, Medi 10fed 1976*
*(Bras-gywir yw'r amserau isod oherwydd natur y profiad)*

10.00a.m. Ffonio am fanylion y tywydd. Dywedodd llais swynol y byddai tymhestloedd (Grym 8) yn rhuo dros Fôr Hafren y noson honno. Cynghorodd fy mhennaeth na ddylwn fynd ar Fordaith yr Urdd.

3.00p.m. Mynd at fferyllydd yn Heol y Ddinas a darganfod mai Cymro Cymraeg ydoedd ar ôl siarad yn Saesneg ag ef am hanner awr. Dywedodd ef mai aros gartre oedd y dull mwyaf effeithiol o osgoi "mal de mer". Câi yntau ben tost wrth wylio rhaglenni Cymraeg.

8.15p.m. Cyrraedd glanfa Penarth a'r glaw yn cwympo'n ddiddrugaredd. Dod o hyd i loches bar y "Commodore". Talu crocbris am beint. Dychwelodd atgofion chwerw am y Cardis yn ecsploitio'u cyd-Gymry yn Aberteifi. Sylwais nad oedd y brodorion lleol yn gorymateb i'r don Gymraeg a ysgubai drostynt.

8.30p.m. Dyn â llygaid craff (gofalwr?) yn gweld llong yn agosau. Rhuthrodd nifer allan i ffyrnigrwydd y noson. Nid ein llong ni ydoedd.

8.50p.m. Aros i fynd ar y llong iawn. Seiniodd ei hwter. Gwaeddodd rhywun "mochyn!" yn ddiymdroi. Efallai fod y llong yn torri gwynt am fod y dyfroedd stormus yn aflonyddu ar ei stwmog. Trodd rhai yn ôl pan welsant y llong yn siglo'n beryglus ar y tonnau.
Clywais ddeialog a haeddai gael ei chynnwys mewn hen ffilm ryfel:
HI (Dulcie Grey?): (yn hysterig) "Just look at that sea... I'm not going on that sea!"
FE (Michael Dennison?): (yn ei chysuro) "You're not going on the sea, dear... you're going on the boat."

# Gŵyl y Cyhoeddi

**Mae cynlluniau niferus eisoes ar y gweill ar gyfer Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Dinas Caerdydd yr haf nesaf. Mae pafiliwn Gerddi Soffia wedi ei logi yn barod ar gyfer cyngerdd mawr a gynhelir yno nos Iau, Mehefin 30ain gyda phlant a ieuenctid ysgolion Caerdydd yn perfformio. Gobeithir cael Cerddorfa Ieuenctid Cymru a Cherddorfa Bres Ieuenctid Cymru i gymryd rhan yn y noson honno hefyd.**

Nos Wener, perfformir drama a gomisiynwyd yn arbennig at yr achlysur yn Theatr Sherman Caerdydd. Mae'n debyg y bydd Rifiw ddychanol/ddoniol yn dilyn y perfformiad hwnnw yn hwyr y nos, felly fe fydd hon yn dipyn o noson.

Cynhelir Seremoni'r Cyhoeddi ei hun yng Nghastell Caerdydd brynhawn Sadwrn, Gorffennaf yr ail. Bydd y dathliadau'n dirwyn i ben y noson honno gyda Chyngerdd Mawreddog gan Gôr yr Eisteddfod, hyn eto ym mhafiliwn Gerddi Soffia.

Pa Gôr Eisteddfod meddech chi? Wel, dyma air o rybudd i faswyr, tenoriaid, sopranos ac altos y brifddinas i ddechrau clirio'r llwnc a bod yn barod am yr alwad oherwydd bydd Côr Eisteddfod Caerdydd yn cael ei ffurfio yn fuan iawn. Pob hwyl iddo gyda'r ymarfer dros y gaeaf.

## Priodasau yng Nghaerdydd

Ein llongyfarchion cynhesaf i'r Parchedig Gareth Jones a Mrs Jones ar eu priodas yn Eglwys Dewi Sant yn ddiweddar. Fe fu Mr Jones yn ficer yn mhlwyf Tregaron, Dyfed, am amser, ond mae ar hyn o bryd yn Gaplan i'r Mud a'r Byddar yn y Brifddinas a'r cylch. Dymunwn bob bendith i'r ddau yn eu cartref newydd.

Llongyfarchion hefyd i Paul Jones, Heol Crystalwood a Gaynor Thomas, Llwynhendy, ar eu priodas yn Awst. Maent wedi ymgartrefu yn Llantrisant.

# Cyflwyno Siec i'r Urdd

**Mewn seremoni yn y Barri yr wythnos diwethaf, cyflwynodd Caren O'Connor, Swyddog Cymdeithasol Cwmni Stampiau *Green Shield* siec am £500 i Mr John Rowley, Cadeirydd Pwyllgor Ariannol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri 1977 (gweler y darlun gyferbyn).**

**Daeth yr arian yma o ganlyniad i'r 300 o lyfrau stampiau *Green Shield* y gallwyd eu cyflwyno i'r cwmni diolch i ymdrechion plant y Barri a'r cylch a fu'n casglu'n ddyfal ers tro; roedd y llyfrau hyn yn cynnwys dros filiwn o stampiau! Tipyn o waith llyfu i rywun!**

**Roedd yr ymdrech hon yn rhan o'r ymgyrch i godi dros £60,000 ar gyfer yr Wyl. Un o'r rhai mwyaf anarferol o blith y gweithgareddau codi arian oedd y Fordaith ar For Hafren a gynhaliwyd y mis diwethaf. Mae'n debyg fod hon yn llwydiannus dros ben er gwaethaf y tywydd stormus. (Ceir argraff bersonol — a phoenus braidd! — o'r fordaith hon gan ein gohebydd uchod.)**

**Cofiwch ddanfon cyfraniad i Gronfa'r Eisteddfod — mae mawr angen amdano. Y cyfeiriad: Mr Desmond Perkins, Banc y Midland, 33 Holton Road, Y Barri.**

# ANTURIAETHAU PERERIN

HI: (yn fwy hysterig) "I don't care... I just can't face it David..."

9.00p.m. Gadael Penarth. Prysurais i'r bar yng nghrombil y llong tra diflannodd y mawrion i ryw oruwch-ystafell. Dywedodd rhywun wrthyf fy mod yn edrych fel petawn wedi gweld ysbryd. Teimlais fod fy nghalon yn ceisio dianc drwy fy llwnc.

Dechreuodd yr 'Icon Jazzmen" ganu eu hofferynnau a cheisiais ymgolli yn rythm y gerddoriaeth. Nid oedd ymwared. A fyddai cau fy llygaid yn datrys y broblem? Roedd y syniad o gwsg costus — gwerth £1.75 — yn annerbyniol.

9.10p.m. Siglodd y llong yn afreolus a daeth pwl drosof. Rhuthrais lan y grisiau a hwpo fy mhen trwy agoriad yn ochr y llong. Nid oedd ymateb. Dim ond y tonnau'n fy ngwawdio.

9.30p.m. Cyrraedd Weston.

10.00p.m. Rhedodd dyn mewn siwt ddu heibio a hwdu i gyfeiriad y môr. Ceisiais ddileu argraff y digwyddiad o'm meddwl. Archwiliodd ei siwt ddrud er mwyn sicrhau nad oedd wedi eu baeddu. Mor ddwys oedd ei wyneb fel y credais iddo gyflawni seremoni holl-bwysig. Moes-wers: mwya parchus yr aiff dyn, lleia i gyd o ddawn sydd ganddo i chwerthin am ei ben ei hun.

10.30p.m. Sylweddolais mai wrth ymroi i rythm y llong (dod yn rhan ohono megis) y gwellwyd fy nghyflwr. Ceisiais gynnal sgwrs â merch yr oeddwn yn ei nabod.

"Rwy'n dwli ar y môr," meddai, "Pe bawn i'n fachgen, fe fyddwn i wedi ymuno â'r Llynges." Edmygodd y tonnau a'u pwer. Ni allai'r philistiad ynof werthfawrogi ei chân o fawl.

11.00p.m. Euthum i eistedd ar faine. Clywais grŵp o bobl yn cyfnewid profiadau.

"Sut oedd y daith i Roscoff?" gofynnodd un a oedd wedi llwyddo i olchi ymaith staen ei dafodiaith.

"Eitha da, wir," atebodd y llall a'i acen mor llefn â melfed. Rhyfedd sut y gallai achosi i'w frawddeg swnio mor ddramatig. "Ond ar y daith yn ôl, bum yn sal deirgwaith." Daeth pwl arall drosof.

11.30p.m. Dywedodd morwr ein bod yn nesâu at lanfa Penarth. Clywais y criw yn y bar yn dechrau canu. Disgwyliais gân a weddai i'r sefyllfa — "Yn yr Harbwr" neu "Ar Fflat Huw Puw," "Daisy, Daisy" a drawodd fy nghlustiau.

11.40p.m. Cyrraedd Penarth. Y broblem nesaf oedd cyrraedd gan i'r bws diwethaf adael am chwarter wedi unarddeg.

"Beth am daith gerdded, hogia?" awgrymodd swyddog a welswn yn Llangrannog. Dim ond presenoldeb merched a'm rhwystrodd rhag ei felltithio. Pam? Yn gyntaf, "bachan" ydw i, nid "hogyn". Yn ail, roeddwn i wedi dioddef hen ddigon dros yr Urdd y noson honno eisoes. Rwy'n gobeithio fod y Fonesig Edwards yn gwerthfawrogi fy aberth.

M.H.

# Y Stampiau Gwyrdd yn dwyn ffrwyth



*Yn y darlun, o'r chwith i'r dde: John Rowley, Cadeirydd y Pwyllgor Ariannol, Elwyn Richards, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Caren O'Connor, a Barry Ryan, Rheolwr Cwmni Green Shield Stamps yng Nghymru.*

# O Ddolwar Fach i Ynys y Barri

**Bu llawer o son yn ystod y misoedd diwethaf yma am "y ferch o Ddolwar Fach" y dethlir daucanmlwyddiant ei geni eleni. Oddi ar ei marw ym 1805, cyfrannodd nifer o awduron at ein gwybodaeth amdani, a gwelodd y blynyddoedd diwethaf ailgynnau diddordeb ynddi ac astudiaeth ddyfnach o'i bywyd a'i gwaith. Yn ddiweddar, o dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru, cawsom gyfrol arni yn Saesneg (*Ann Griffiths* gan y Canon A.M. Allchin o Brifeglwys Caergaint, yn y gyfres *Writers of Wales*).**

Ond nid am y llyfr diddorol hwn y sonir yma, ond am ymgais gynharach i ddod â'r "anfarwol Ann" i sylw'r byd Saesneg. Mae'r gwaith hwn o ddiddordeb arbennig inni yn yr ardal hon am mai gŵr oedd ar y pryd yn byw ar Ynys y Barri oedd yr awdur, ac mai yn Nhregatwg, Y Barri y'i cyhoeddwyd ym 1916. Dyma'r hyn a ddywed y tudalen cyntaf:

"A short Memoir of Ann Griffiths with a translation of her Letters and Hymns, by Evan Richards, Barry Island, Glam. Price: One Shilling." Cynnwys y llyfr gofiant byr ar Ann, nodiadau ar y llythyrau a'r emynau, y cyfieithiadau ynghyd â mynegai i linell gyntaf pob pennill. Ymddengys mai casgliad y Parch Edward Griffiths, Meifod o waith yr emynyddes, a gyhoeddwyd ym 1903, oedd sail gwaith Evans Richards.

Yn ôl ŵyres iddo sy'n byw o hyd yn Y Barri, ganed Evan Richards tua 1840 a bu farw ym 1927; yn ôl un arall ym Mhorthcawl, o Durham y daeth i Gymru, i Faesteg yn gyntaf lle bu'n cadw siop lyfrau. Yna, pan oedd tua hanner cant oed, daeth i Heol y Brodyr (Friars' Road), Ynys y Barri, lle bu'n cadw Swyddfa'r Post. Beth bynnag ei gefndir yn Durham, mae'n amlwg wrth ei gyfieithiadau, ac yn ôl tystiolaeth ei wyres yn y Barri, ei fod yn eithaf hyddysg yn y Gymraeg.

Dyn gwan ei iechyd fu ar hyd ei oes ar ôl ei daro gan ryw waeledd (y ddarfodedigaeth o bosib), ond bu'n hynod o weithgar ym myd crefydd, ac yn gymydog cymwynasgar dros ben. Gweithiodd yn galed gyda sefydlu'r capel Presbyteraidd sydd ar gopa'r bryn ar Ynys y Barri; bu'n aelod yng Nghapel Methodistaidd Penuel yn y dre, lle by hefyd yn cynnal dosbarth beiblaidd, a bu'n barddoni tipyn hefyd, mae'n debyg. Roedd hefyd yn ddirwestwr digon cryf i allu gwrthod swm go sylweddol o arian a adawyd iddo gan ryw berthynas o fragwr!

Hynod meddwl am lyfr fel hwn yn dod allan o Ynys y Barri. Meddyliwch am Evan Richards y tro nesaf y byddwch yno yn sŵn y ffair ac yng ngolwg Butlins.

T.R. EDWARDS

## POB LWC GARETH

Llongyfarchiadau gwresog i Gareth Hopkins, mab Mr a Mrs Roy Hopkins, 6 Clyro Place, Caerdydd.

Mae Gareth wedi ei benodi i'w swydd gyntaf — sef Dirprwy-Prif Offerynwr y Bâs Dwbwl yng Ngherddorfa Ulster, Belfast. Bydd yn teithio i'r Iwerddon yr wythnos hon. Un o fechgyn ysgol Bryntâf, Rhydfelen ac Ysgol Gyfun Cathays yw Gareth. Wedi iddo adael yr ysgol, bu am dair blynedd yn Academi'r BBC Bryste. Dyma lle bu llawer o Gymru ifanc yn cael profiad gwerthfawr o ymarfer mewn cerddorfa.

Tra yn yr ysgol, dewisiwyd Gareth i fod yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Prydain Fawr. Mae'n aelod brwdfrydig o'r Urdd a'r llynedd treuliodd ei wyliau fel Swog yn Llangrannog.

Pum mlynedd yn ôl, daeth yn fuddugol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y BBC am y Gitarydd Clasurol gorau o dan 17eg oed. Y wobr oedd gitar newydd hardd. Cafodd Gareth ei hyfforddi gan Ernest Haigh yng Ngholeg Drama a Cherdd y Castell, Caerdydd a hefyd Thomas Martin yn Llundain.

Dymuniadau gorau Gareth. Brysiwch yn ôl i Gymru.

# FRANK Y PUMED

**Menter gyffrous iawn yw cynhyrchiad nesaf Theatr yr Ymylon, sef "Frank the Fifth", cyfieithad Saesneg o un o ddramau enwocaf y dramodydd o'r Swisdir, Friedrich Dürrenmatt. Bydd y cynhyrchiad hwn yn ganolbwynt Gŵyl Dürrenmatt Cyngor Celfyddydau Cymru; bydd yr awdur ei hun yng Nghaerdydd ddechrau mis Tachwedd i dderbyn Gwobr Lenyddiaeth Ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

Mae'r ddrama hon yn creu byd rhyfedd iawn, byd sy'n troi syniadau a delfrydau beunyddiol y dyn cyffredin wyneb i waered gan beri i bobl wgu ar barchusrwydd a chlodfori'r bywyd llwgr. Mae'r ddrama wedi ei gosod yn Y Swisdir wedi'r rhyfel — ac y mae yna debygrwydd hynod rhwng y Swisdir honno a Chicago yn y 30au!

Drama gerddorol yw hon, yn nhraddodiad Bertold Brecht a Kurt Weill; gellir gweld fod dylanwad y Threepenny Opera ac Arturo Ui yn drwm arni. Gan symud y tu hwnt i Brecht, mae'n amlwg fod Frank V yn llinach 'Lulu' Wedekind.

Cymry yw'r cast i gyd, gan gynnwys Rhoda Lewis sy'n ymddangos yn y gyfres *Lorna Doone* ar y teledu ar hyn o bryd, ac Edward Phillips a fydd yn chwarae Frank ei hun. Mae'r cast hefyd yn cynnwys pedwar o actorion rheolaidd Theatr yr Ymylon, sef Iola Gregory, Falmai Jones, Ian Saynor a Terry Dyddgen Jones a welwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar yng nghynhyrchiad Theatr yr Ymylon o *Cariad Creulon:* tra gwahanol yw'r rhannau a chwareuant y tro hwn!

Gobeithir y bydd i'r cysylltaid uniongyrchol hwn â'r traddodiad Ewropeaidd brofi'n gyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad y theatr yng Nghymru gan esgor ar ddulliau newydd o actio a chynhyrchu. Gareth Jones sy'n cyfarfwyddo, a gellir gweld "Frank the Fifth" yn Arena Theatr y Sherman o Hydref 18 hyd y 23 am 8.00p.m. bob nos.

## Babi newydd

Y mis diwethaf, ganed merch fach, Siriol Haf, i Falmai a Brian Griffiths, Rhiwbeina. Mae Falmai, wrth gwrs, yn adnabyddus i lu o ddysgwyr drwy eu dosbarthiadau Cymraeg. Llongyfarchiadau gwresog i'r rhieni, a chroeso i'r fechan — mae'n dda gwybod fod 'na gynnydd cyson yn rhengoedd darllenwyr *Y Dinesydd*!

## YR URDD Dosbarth Caerdydd

Dan nawdd Pwyllgorau Dosbarth Caerdydd a'r Barri, cynhaliwyd cwrs undydd i arweinyddion adrannau Sir De Morgannwg ar Fedi'r 24. Daeth rhwng 70 ac 80 o athrawon ynghyd i wrando ar nifer o siaradwyr yn trafod gwahanol agweddau ar waith y mudiad o fewn y Sir.


Rhoddodd Mr John Albert Evans amlinelliad o bwysigrwydd y gwersylloedd ailiaith a phwysleisiodd y dylai pob athro ail-iaith ystyried anfon plant i'r gwersylloedd. Cyfeiriodd Mr Elwyn Richards at gyfrifoldeb holl garedigion yr Urdd tuag at Eisteddfod y Barri, ac anogodd bawb i'w chefnogi. Awgrymiadau ar sut i redeg adran mewn ysgol gynradd ac uwchradd a gafwyd gan Mr Garwyn Davies a Mr Moelwyn Preece. Canolfan Caerdydd oedd maes Mr Ian ap Dewi, tra dewisodd Mr Gwilym Roberts siarad am redeg 'adran bentref', datblygiad mwy diweddar ar waith y mudiad. Gwilym hefyd a fu'n tywys yr athrawon a phlant Ysgol Birchgrove drwy rai o'n dawnsfeydd gwerin. Cafwyd diwrnod hwylus iawn a'r gobaith yw y bydd mwy o adrannau yn ymuno â'r mudiad eleni.

Cynhaliwyd Pwyllgor Dosbarth Caerdydd ar Fedi'r 27 a neilltuwyd y rhan fwyaf o'r amser i drafod y Gwasanaeth Nadolig a'r Eisteddfodau Cylch. Bydd trefniadau'r Gwasanaeth yng ngofal Mrs Anita Davies, Ysgol Gynradd Rhiwbeina, a Mrs Jennie Jones, Ysgol Uwchradd Willows. Penderfynwyd ar y 25 a'r 26 o Chwefror ar gyfer yr Eisteddfodau. Mr Zac Davies fydd yn trefnu Eisteddfod y Dwyrain, a threfnir Eisteddfod y Gorllewin gan Mr Goronwy Jones.

Eisoes dechreuodd rhaglen aeaf yr ysgolion cynradd gyda Helfa Drysor ar nos Lun Medi'r 20 a Dawns Werin ar Nos Lun Hydref 4. Gellir cael y rhaglen lawn gan Mr Ian ap Dewi yng Nghanolfan yr Urdd.

GARWYN DAVIES

# Pwy yw Cantorion Ardwyn?



"Brynwch chi docyn i gyngerdd Cantorion Ardwyn?"

"Pwy?"

"Cantorion Ardwyn — Caerdydd."

"Côr Meibion?"

"Cymysg, — Côr Helena Braithwaite."

"O felly!"

Yn ffodus mae anwybodaeth o'r math uchod ymysg ein dinasyddion, yn prysur ddiflanu. Y syndod yw, nad yw'r 'Ardwyn' yn enw teuluol yng Nghymru, o gofio eu llwyddiant yn ystod deng mlynedd eu bodolaeth. Dwy daith hynod lwyddiannus i Ogledd America, ac un arall i'r Almaen. Cyngherddau led-led Cymru a Lloegr, ymddangosiad yn Neuadd Albert Llunain, ynghyd â nifer o ddarllediadau ar y Radio a'r Teledu. Mae ganddynt record hirfaith ar y farchnad ac un arall ar y gweill. Anaml y byddant yn cystadlu mewn Eisteddfodau, ond digon yw dweud iddynt guro pob côr arall o Gymru a churo pob côr o bedwar ban byd ar y darnau gosod yn Llangollen eleni. Dyma gôr y gallwn ymffrostio ynddo yma yn ein Prifddinas.

Fe ŵyr eu cefnogwyr mor amryddawn ydynt mewn cyngerdd, gyda'u rhaglen amrywiol o fadrigalau, anthemau, caneuon gwerin Cymru a rhyngwladol, gweithiau clasurol ac eglwysig, a chyfansoddiadau modern gan gynnwys Jazz. Bwriad Helena Braithwaite a'r Cantorion yw rhoi rhywbeth i blesio pawb yn y rhan fwyaf o'u cyngherddau. Ond yn achlysurol mae nhw'n trefnu cyngerdd arbennig i blesio eu hunain, a'ch gwahodd chwi ddinasyddion i fwynhau gyda nhw raglen llawn sylwedd. A dyna eu bwriad ar *Nos Sadwrn 23ain o Hydref yn Neuadd y Reardon Smith*, pan gyflwynir rhaglen o gerddoriaeth yr ugeinfed ganrif gan Rawsthorne, Walton, Vaughan Williams, Britten, a Holst.

"Brynwch chi docyn i gyngerdd Cantorion Ardwyn?"

"Â phleser."

## GŴYL HYDREF PENARTH — DYDDIADUR

**Dydd Gwener 15fed HYDREF**

| | |
|---|---|
| 7.30p.m. | Cyngerdd gan Mr Arnold Draper yn Nhŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth. |
| 8.00p.m. | Twmpath Dawns yn y Commodore, Penarth (gan Gymdeithas Rieni Ac Athrawon Ysgol Gynradd Gymraeg Penarth). |

**Dydd Sadwrn 16eg HYDREF**

| | |
|---|---|
| 10.00a.m. | Bore Coffi gan Gymdeithas Hanes Lleol Ardal Penarth yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell. |
| 10.00a.m. | Arddangosfa am byllau glo gan y NCB yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell. |
| 11.30a.m. | Dawnswyr Morris yn Heol Glebe, Penarth. |
| 2.30p.m. | Dawnswyr o Ysgol Heol-y-Celyn yn "Little Dock Street", Cogan. |
| 3.15p.m. | Dawnswyr o Ysgol Heol-y-Celyn yn Heol Glebe, Penarth. |
| 3.45p.m. | Dawnswyr o Ysgol Heol-y-Celyn yn Wood Street, Penarth. |

**Dydd Sul 17eg HYDREF**

| | |
|---|---|
| 8.00p.m. | Cymanfa Ganu gyda Mr Howard Goodfellow yng Nghapel Bethel, Heol Plassey, Penarth. |

**Dydd Llun 18fed HYDREF**

| | |
|---|---|
| 7.30p.m. | Arddangosfa am byllau glo gan y NCB yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell. |

**Dydd Mawrth 19fed HYDREF**

| | |
|---|---|
| 7.30p.m. | Noson Goffi gan Gymdeithas Gymraeg Penarth. |
| 8.00p.m. | Arddangosfa am byllau glo gan y NCB yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell. |

**Dydd Iau 21ain HYDREF**

| | |
|---|---|
| 7.30p.m. | Sgwrs gan Mrs P. Moore ar "The Story of Fonmon Castle" yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell (gan Gymdeithas Hanes Lleol Ardal Penarth). |
| 7.30p.m. | Cyngerdd gan Gymdeithas Gorawl Dinas Powys a myfyrwyr o Ysgolion Cyfun Stanwell a Sant Cyres Penarth, yn Eglwys y Bedyddwyr Heol Stanwell. 30c (20c i bensionwyr). |

**Dydd Gwener 22ain HYDREF**

| | |
|---|---|
| 10.00a.m. | Bore Coffi yn Ysgol Feithrin Penarth, Neuadd Eglwys y Bedyddwyr Heol Stanwell (gan Ysgol Feithrin Penarth). |
| 6.00p.m. — 8.00p.m. | Arddangosfa gan y NCB yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr Heol Stanwell. |
| 8.00p.m. | "Pints & Poems" — noson lawen yn Nafarn "Plymouth Arms", High Street, Penarth (gan Gyngor Masnachau Penarth). |

**Dydd Sadwrn 23ain HYDREF**

| | |
|---|---|
| 2.00p.m. | Arddangosfa o reilffyrdd a modelau gan Glwb Rheil Cymru, (Abertawe). |

**Dydd Sul 24ain HYDREF**

| | |
|---|---|
| 8.00p.m. | Cyngerdd yng Nghapel yr Annibynwyr, Bethel, Heol Plassey. Croeso i bawb. |

Tocynnau oddi wrth ysgrifennydd y cymdeithasau neu Brian Keitch, 129 Heol Redlands, Penarth CF6 1WG.


CYRHAEDDWCH

78,500

O DDARLLENWYR

Ffôniwch i gael ein

telerau hysbysebu

CAERDYDD 396262



**RICHARD BOOTH (BOOKSELLERS) LTD**

yw'r gwerthwyr llyfrau ail-law mwyaf ond un yn yr holl fyd, gyda saith siop wahanol yn Y Gelli, a rhyw filiwn o lyfrau ar werth ynddynt bob amser. Mae'r siopau i gyd ar agor ddydd Sadwrn ac erys rhai ohonynt ar agor dros y Sul hefyd. Prynnir a gwerthir pob math o lyfrau ail-law, a chroesewir ymwelwyr o bob math (byddai'n well gennym pe bai modd i bartïon drefnu eu hymweliadau ymlaen llaw).

*The Castle*
*Hay-on-Wye*
*via Hereford*
*POWYS*

*Hay-on-Wye 322*

# HIDROGEN 2 OCSIGEN

**ie, yr hen ddŵr 'na. Peth prin ym 1976, ond ni fu'r sôn amdano yn brin o gwbl. Pa esgus, felly, sy gen i wrth ychwanegu fy nhipyn bach o fyfyrdod at ddatganiadau Mawrion y Wasg? Dim ond hwn, (wrth aralleirio'n rhyfyg iawn ddyfyniad o waith gwirion-eddol fawr), i gadw "i'r oesoedd a ddêl yr aflendid a fu", rhag ofn fod rhai sydd yn chwilio, y ganrif nesa, yng nghoflyfrau "Y Dinesydd" am ryw gyfeiriad at effaith Sychder Mawr 1976 ar bobl Prifddinas Cymru yn cael dim byd, ac yn casglu, gan hynny, nad oedd y sychder ond breuddwyd, heb realiti o gwbl.**

Wrth gwrs, erbyn y ganrif nesa, gall fod prinder dŵr yn colli apêl fel newyddion i ddynion y Wasg, am ei fod wedi dod yn beth cyffredin, cyfarwydd i bawb. Gall fod pawb yn ei chymryd yn ganiataol nad ydyw dŵr yn llifo allan o'r tap yn y tŷ, dim ond o'r "casgen talcen y tŷ" y siaradodd Alan Llwyd, prifardd er ei waethaf, amdano yn Awdl y Gadair, flwyddyn gyntaf y Sychder Mawr. Efallai y bydd siop "glanhad-heb-ddŵr" nid yn unig ar bob cornel y stryd, ond wedi cymryd lle'r Supermarkets, gan na fydd digon o fwydydd i lenwi'r silffoedd byth mwy. A'r ffynonellau addurnol o flaen Neuadd y Ddinas yn cael eu hesbonio i'r twristiaid ar hyd Promenâd de Nantes fel olion archaeolegol oes Aquarius, cludwr y dŵr.

Ond chwarae teg i'r Awdurdodau a phobl y Brifddinas, ni fu ei strydoedd hi'n fwy aflan yn ystod yr haf 1976 nag ydynt yn arfer bod, ac nid yw yn help o gwbl bod yn broffwyd o ddŵm. Beth sy'n eisiau arnom nawr yw dysgu hunan-ddibyniaeth, neu "Self-help" bondigrybwyll Samuel Smiles Pam, tybed, ydym ni'n disgwyl i bopeth gael ei ddarpar inni gan y Wlad-wriaeth neu, yn y cyswllt yma, gan Awdurdod Cenedlaethol Datblygu Dŵr Cymru? Ac wrth fynd heibio, er fod lle i ddrwgdybio cenedlaetholdeb yr Awdurdod hwn, 'does dim dwywaith amdani, i mi beth bynnag, fod y dŵr yn perthyn i bawb; gall fod y cronfeydd a'r pibellau dŵr yn perthyn i Gymru, wrth gwrs, a rhaid sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio er lles Cymru yn y dyfodol, ond dadl wleidyddol yw hon nad ydwyf yn ddigor call i'w thrin.

Fe ddaeth gorchymyn a rhybudd ac ymgynghoriad yn ffrwd haelionus am beidio â gwastraffu dŵr yn ystod y creisis, ond hyd y gwn i, ni ddaeth rysait sut i wneud dŵr, fel y daeth rysait am fara yn ystod streic y pobyddion ddwy flynedd yn ôl. Ac eto, dim ond dwy ran o hidrogen ac un o ocsigen sy'n eisiau dim burum o gwbl! Mae'n debyg mai yr Hollalluog yn unig sy wedi meistroli'r dirgelwch o gyfansoddi dŵr, er ein bod ni, "yr hanner-duwiau", yn gallu ei ddadansoddi. Rhaid llongyf-arch y Sikhs yn Llundain a lwyddodd i drefni ryw fath o "break-through" gyda'r Hollalluog ar streic!

Ond i ddod yn ôl at yr hunan-ddibyniaeth 'na, y mae casgen talcen y tŷ yn beth defnyddiol iawn, a synnwn i ddim pe byddai'n yn orfodol o dan reolau adeiladu a iechyd yn y dyfodol, fel y mae "lle chwech" mewnol wedi dod i fod yn ein hoes ni. Y mae galwyni ar ôl galwyni o law yn rhedeg dros balmentydd Caerdydd bob gaeaf, (a phob haf hefyd ac eithrio 1976) er anghyfleustra ofnadwy i'r cerddwyr; peth hyfryd i olchi dillad a llestri yw dŵr heb ei glorino, heb son am gorff a gwallt, ond nid yw mor dda i olchi esgidiau!

A beth am fynd ati i dyfu llysiau a ffrwythau a fydd mor brin a chostus cyn bo hir oherwydd y sychder? Gwaith caled? Wel, gan fod awtomatiaeth wedi "cymryd drosodd" nawdeg y cant o'n bywyd beunyddiol, pa fodd arall sydd ar ôl i ni gadw'n ffit? Torri'r lawnt? Efallai y bydd glaswellt yn fwyd derbyniol i chi ond o'm rhan i, mefus a letys, tomatos a betys sy'n orau.

"Y mae Duw yn helpu'r rheina sy'n helpu eu hunan" meddai'r hen bobl, a gwir yw'r gair hefyd. Ond erbyn hyn, dyma'r glaw bendigedig yn llifo dros balmentydd Caerdydd unwaith eto. "God's in His Heaven; all's right with the world!"

DOROTHY WOOD

## GOSOD BABELL

## YNG NGWLAD GOSEN


A dyna, hefyd, yw cyngor Swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd. Mae'r pafiliwn, druan, fel y gŵyr pawb, yn cael ei ddirmygu a'i wrthod yn ei henaint, ond nid pawb sy wedi sylweddoli ei fod wedi cenhedlu llu o blant bach, yn garafannau a phebyll. Wyddech chi fod pum cant o garafannau'n cludo eistedd-fodwyr i eisteddfod erbyn hyn, a bod yr un nifer o bebyll yn cael eu gosod mewn maes cyfagos i'r ŵyl? Mae rhyw ystadegydd wedi darganfod fod 100% o'r carafanwyr yn mynychu'r eisteddfod, a rhyw 10% o'r pabellwyr yn gwneud hynny. Mai *elite* yw rheiny sy'n cludo'u tai bach gyda nhw, a'r lleill yw'r pabellwyr, sy'n gofyn i rywrai ddarparu tai bach ar eu cyfer. Yn Eisteddfod Aberteifi, cymer-wyd yr holl gyfrifoldeb am y pebyll gan Glwb y Ffermwyr Ifanc, heb fawr o lwyddiant, yn ôl a ddarllenir yn y wasg. Problem i ddarllenwyr Y Dinesydd. Be wnewch chi â 500 o garafannau a 500 o bebyll? Mae gwlad Gosen braidd yn bell......


cleglen cyf
TELIFFÔN
CAERDYDD
28917
argraffwyr

BBC Cymru Wales
Mae ar Radio Cymru eisiau
GOHEBWYR LLEOL
ar gyfer rhaglen newydd Hywel Gwynfryn a gych-wynnir ym mis Ionawr.
Cymwysterau:
diddordeb mewn darlledu, gwybodaeth drylwyr o'u hardaloedd a'r medr i sgwrsio'n ddifyr, dod o hyd i storiau lleol a'u cyflwyno'n fywiog.
Anfoner ar unwaith, gan roddi manylion am gym-wysterau, diddordebau ac unrhyw faterion perthnasol eraill at:
*Gareth Lloyd Williams, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd.*


Hergest
JAM
Rhaglen newydd 'bop' gyda chyflwyniad dwyieithog bob nos Fercher am 6.30p.m.
— yn dechrau Hydref 13
HTV CYMRU WALES
O'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.

# Oedfa Gymraeg eto yng Nghapel Dafydd William



Llun: Idris Morgan

*CAPEL CROES Y PARC*
*(drwy garedigrwydd Christopher Davies Cyf.)*

**"Go denau yw'r gynulleidfa yng Nghroes-y-parc erbyn hyn, ryw wyth i ddeuddeg, a Saesneg yw iaith y gwasanaeth, ar wahân i'r ddau emyn Cymraeg. Yr oedd gwasanaeth Cymraeg yng Nghroes-y-parc bob bore Sul tan tua 1912." Dyna'r dystiolaeth a gafodd Aneirin Talfan gan un o hen frodorion Llanbedr-y-fro wrth "Grwydro Bro Morgannwg" (cyfrol 2, 1976).**

Fodd bynnag, ddydd Sul, Medi 19, yr oedd gwasanaeth Cymraeg unwaith eto yn hen gapel Dafydd William, yr emynydd. Daeth dros ddeugain o Gymry o bentre Llambad (dyna sut y cyfeiriai'r hen frodorion at Llanbedr-y-fro) a'r pentrefi cyfagos i Groes-y-parc am 3 o'r gloch y prynhawn i gynnal y gwasanaeth Cymraeg cyntaf ar y Sul ers dros drigain mlynedd. Ni fuasai amgylchiad o'r fath yn bosibl tan yn ddiweddar, ond bellach symudodd nifer o deuluoedd Cymraeg i fyw i'r pentre ac aeth nifer o'r brodorion ati hefyd i ddysgu iaith eu cyndeidiau mewn dosbarthiadau nos. Nid yw'n fwriad sefydlu achos newydd, nac i ddal cysylltiad ag unrhyw un enwad arbennig. Yr oedd y gynulleidfa yn yr oedfa gynta' yn gynrychioladol o bob enwad ac o wahanol eglwysi'r brifddinas.

Yn bwrpasol iawn, Y Parchedig Raymond Williams, Y Tabernacl, Caerdydd a wahoddwyd i wasanaethu yn yr oedfa gynta' gan mai Croes-y-parc yw mam,eglwys y Tabernacl. Yn ei neges hyderus a ffyddiog, cyfeiriodd at weledigaeth y dyrnaid o bobl a aeth o bentre Llambad i Gaerdydd ym 1813 gyda'r Parchedig James Perrott, Croes-y-parc i sefydlu achos mewn stafell uwchben ffatri'r "Star and Garter" gerllaw Castell Caerdydd. Wyth mlynedd wedyn sefydlwyd Eglwys Y Tabernacl.

Etholwyd Mrs Eirlys Pritchard Jones yn ysgrifennydd "Cynulleidfa Gymraeg Croes-y-parc" gyda Mr Bob Davies yn drysorydd a Meirion Evans yn organydd.

Sefydlwyd achos Fedyddiedig yn Llanbedr-y-fro ym 1777, blwyddyn y tair caib. Ym 1776, yr oedd yr hanesydd Joshua Thomas ar daith arbennig yn y De yn casglu defnyddiau ar gyfer ei gyfrol ar Hanes y Bedyddwyr ("Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymru" a argraffwyd dros yr awdur gan John Ross, Caerfyrddin) a ymddangosodd ym 1778. Y mae yn adrodd hanes sefydlu Eglwys Fedyddiedig yn *Llanbedr ar fro* (dyna'r ffurf a arferai'r Athro Griffith John Williams hefyd), ond nid oes son am Groes-y-parc. Yn ôl Joshua Thomas daeth y cynulliad cynta' at ei gilydd ar yr 28 o Fehefin 1777 i wrando ar ryw Mr Edmund Watkins o Langwm. "Yna holwyd rhai o'r bobl, o ran eu gwybodaeth, eu profiad, a'u diben. Wedi cael bodlonrwydd ynddynt cytunwyd i fedyddio tri o honynt drannoeth. Pregethodd Mr W. y boreu canlynol, yr hwn oedd y Sabbath, i liaws o wrandawyr...... Yna bedyddiwyd y tri yn yr afon, Lai, ger bron cannoedd o edrychwyr; a gwnaed y cyfan yn weddus ac mewn trefn...... Wedi hynny byddai un ac arall yn pregethu yno ar brydiau. Bedyddiwyd rhai yno wedi hynny, o bryd i'r llall. Gan fod argoelion mor obeithiol, soniwyd am gorpholi Eglwys yno ...... Felly wedi ystyried, ymgynghori a chytuno, corpholwyd yno Eglwys ar y 4ydd o Hydref, 1777. Cyfrannwyd iddynt swpper yr Arglwydd drannoeth. ....... Yr oedd 14 o aelodau gwreiddiol yno cyn diwedd y flwyddyn 1777. Y maent hyd yma yn cyfarfod mewn goruch ystafell eang, yn agos i hen gastell yn y plwyf. Mae'r Eglwys ieuangc fechan hon yn cael ei chynnorthwyo yn y weinidogaeth gan un ac arall, fel y gallont hyd yn hyn ..... Mae Mr David Williams wedi bod lawer o flynyddau yn cadw ysgol Gymraeg yn y wlad dros Madam Beavan, o Sir Gaerfyrddin; bu hefyd yn hir cynghori gyda'r Methodists. Mae fe'n un o aelodau gwreiddiol yr Eglwys Newydd."

Dafydd Williams, Llandeilo Fach, yr emynydd, yw'r "Mr David Williams" hwn. Fe'i ganed yn Llanedi, ond treuliodd rhan fawr o'i oes yn Llandeilo Tal-y-bont neu Llandeilo Fach ar lan afon Llwchwr. Bu'n athro cylchynnol am rai blynyddoedd ac ar gymhelliad Daniel Rowland, bu'n cadw ysgol, dan Madam Bevan yn y Goppa Pontarddulais. Heb ymhelaethu, trafferthion teuluaidd a'i gorfododd i adael Pontarddulais ym 1770. Aeth i Faesaleg, Sir Fynwy yn gynta ac i bentre Llambad tua 1776. Bu farw ym 1784 a'i gladdu ym mynwent y capel. Ym 1910, dadorchuddiwyd cofgolofn iddo gan Arglwydd Pontypridd (Lloyd George yn rhy brysur i ddod). Er mai fel awdur "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau" y mae Dafydd William yn adnabyddus, y mae nifer o emynau eraill hefyd yn gyfarwydd yng Nghaniadaeth y cysegr; emynau fel "Hosanna Haleliwia, fe anwyd Brawd i ni" ac "Anghrediniaeth gad fi'n llonydd".

Cynhelir oedfa Gymraeg yng Nghapel Croes-y-parc ar y trydydd Sul, o bob mis am 3 o'r gloch. Gwasanaethir ar Sul, Hydref 17 gan y Parchedig Emlyn Jenkins, Ebeneser, Caerdydd.

JOHN BEVAN


*Cyngor Celfyddydau Cymru*
*Welsh Arts Council*

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

LLYFRAU,
CYLCHGRONAU
POSTERI,
CARDIAU CYFARCH,
CARDIAU NADOLIG
CARDIAU POST

***Nifer helaeth o lyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar***

# O Feysydd y Bêl Hirgron

Mae'r Crysau Duon wedi mynd adre o Dde Affrig heb ennill y gyfres unwaith eto — am y pumed tro o bump. Fe aethon' nhw yno gynta yn 1928 o dan gapteiniaeth Maurice Brownlie, ac 'roedd ei frawd, Cyril, a anfonwyd o'r cae yn Twickenham yn 1925, ymhlith y blaenwyr hefyd. Ond nid aeth Seland Newydd â George Nepia, y cefnwr disglair a oedd wedi chwarae mor wych yn Ewrob yn 1924-5, oherwydd mai Maori oedd ef, a'r un fu ffawd Jim Mill, y mewnwr. Colli yn 1949 o bedair gêm i ddim â thîm gwyn, ac o ddwy i un ag un yn gyfartal yn 1960 — eto'n wyn — cyn cyrraedd yn 1970 gyda chwaraewyr lliw, Sid Going, y Maori, a Bryan Williams a hanai o Samoa, ac nid o'r Tymbl. Fe ddisgwylid iddyn nhw o dan Brian Lochore ennill y gyfres yn sicr, gan i Dde Affrig golli i'r Alban a Lloegr a rhannu eu gêmau yma ac yn Nulyn yng ngaeaf 1969-70. Ac onid oedd Y Crysau Duon ar ben eu digon wedi curo'r pum gwlad yn Ewrob yn 1967 ar eu taith fer, a Chymru, Pencampwyr Ewrob, ddwywaith yn 1969? Tair i un oedd hi, beth bynnag, ac 'roedd eu hunig fuddugoliaeth yn un fain iawn, a honno yn yr ail gem.

Wedi gwrthod derbyn De Affrig yn 1973 am na châi Bwrdd Rygbi'r wlad honno gynnwys chwaraewyr lliw yn eu carfan, 'roedd Seland Newydd yn annhebyg o ymweld eu hunain yn 1976, ond fe wnaethon' nhw, a dioddefodd Olympiad Montreal o'r herwydd. Cyfres arall yn y llyfrau hanes a buddugoliaeth i Dde Affrig o dair gêm yn erbyn un, ond Y Crysau Duon a sgoriodd y nifer mwya' o geisiadau — pump yn erbyn pedwar. Pedair gêm ddiflas, ddiddychymyg ac ar adegau fudr, ac ni ddysgodd Carwyn, a welodd y drydedd, unrhyw beth y byddai bechgyn Y Strade yn falch ohono. Gallai Cymru o chwarae fel y chwaraesom ni'n erbyn gwledydd Ewrob y tymor diwetha' fod wedi curo'r ddwy yn bur hawdd. Ond tybed? A allai ein blaenwyr roi digon o feddiant i'n holwyr gael y cyfle i ddangos eu doniau dihafal? Nid wyf i'n credu y byddai fawr neb yn y wlad hon yn proffwydo buddugoliaeth pe chwaraeai Cymru yn Durban neu Auckland. Ys gwn i faint a broffwydai fuddugoliaeth pe chwaraeid un o'r ddwy wlad yma yng Nghaerdydd? Mae'n debyg bod pac De Affrig yn drymach nag odid yr un pac mewn hanes, ond er hynny fe enillai'r Crysau Duon ddigon o'r bêl o bob agwedd o'r chwarae, a rhaid dweud y bydden' nhw wedi sgorio o leia' un cais arall onibai am gam-rwystro. A chyn dychwelyd at wahanfur lliw, mae angen dweud rhywbeth am sefyllfa dyfarnwyr rhyngwladol. Mae hi'n hurt hollol fod Seland Newydd yn cael gwrthod dyfarnwyr o wledydd eraill pan fyddan nhw'n chwarae yn Ne Affrig neu gartre. 'Roedd De Affrig yn fodlon cael dyfarnwyr o Ewrob y tro yma, ond 'doedd Seland Newydd ddim. Ple mae awdurdod y Bwrdd Rhyngwladol bondigrybwyll a ffurfir gan gynrychiolwyr o bedair o wledydd Ewrob (heb Ffrainc sylwer) a De Affrig, Seland Newydd ac Awstralia? Meddyliwch o ddifri' am gael Meirion Joseph i ddyfarnu yng Nghaerdydd neu John West yn Nulyn (neu John West yn Twickenham, meddech chi!).

At liw croen y chwaraewyr i orffen. Fe fydd o hyn allan gêmau yn Ne Affrig rhwng Affrigwyr gwyn ac Affrigwyr du, ac fe gaiff chwaraewyr lliw eu dewis i dimau'r wlad i fynd tramor, ond ni cheir clybiau cymysg, hynny yw, aelodau gwyn a lliw y tu mewn i'r un clwb.

Ac hyd oni symudir pob gwahanfur lliw ni fodlonir pawb, ac felly ni chroesewir y Springboks ymhob gwlad. Cawn ni weld a groesewir nhw yma yn 1978, oni fydd sefyllfa y bobl liw yn gwbl gyfartal â'r rhai gwyn. Hoffwn i glywed, gyda llaw, beth sy gan y rheini a fynnai "adeiladu'r pontydd" a dal i chwarae De Affrig beth bynnag a fyddai sefyllfa y dyn tywyll ei groen i'w ddweud erbyn hyn. Pwy oedd yn iawn — ai nhw ai'r rheini a fu yn erbyn chwarae De Affrig mewn unrhyw gamp hyd oni newidiai hi ei hagwedd? 'Does dim rhaid i mi ateb hynny yma.

THOMAS DAVIES

# Gwobrwyo yn Rhydfelen

Oherwydd y prinder dŵr eleni, methodd Ysgol Rhydfelen gynnal ei chyfarfod gwobrwyo yn ei neuadd a bu rhaid mynd i'r Reardon Smith yn lle hynny. Bu rhaid hepgor y croeso cynnes arferol o baned ar ôl, ond roedd y cyfarfod yn gyfle gwych i'r hen ddisgyblion ddod at ei gilydd i gael eu clodfori cyn iddynt wasgaru i bob cyfeiriad.

Mae'r Dinesydd yn llongyfarch yr ysgol am wneud mor dda yn yr arholiadau. Gyda nifer o'r disgyblion, ni ellid dweud, "Nid da lle gellir gwell" achos roeddynt wedi cyrraedd y brig uchaf ym mhob pwnc. Fe all y prifiathro, yr athrawon a'r plant ymfalchio yn eu llwyddiant.

Yn y rhaglen, llongyferchir disgyblion am iddynt sicrhau lleoedd ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Tra'n ategu hyn yn llawen, carai'r Dinesydd longyfarch y rhai a lwyddodd i fynd i brifysgol Cymru yn ogystal.

# Llongyfarchion

I Miss Gwerfyl Pierce Jones, Heol Ninian, ar ei dyrchafiad yn Bennaeth Adran Cyhoeddusrwydd a Golygyddol Cyngor Llyfrau Cymraeg yn Aberystwyth. Golyga hyn y bydd rhaid iddi gefnu ar y ddinas a mynd o leiaf hanner y ffordd yn ôl i'w bro enedigol ym Môn. Mae Gwerfyl ar hyn o bryd yn Swyddog Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

I Mr Gareth Rowlands, Llaneurwg, ar ei ddyrchafiad yn Gynhyrchydd Radio Sain gyda'r BBC. Mae Mr Rowlands yn hannu'n wreiddiol o Aberystwyth. Nes ei ddyrchafiad, roedd yn gweithredu fel rheolwr llawr gyda'r Gorfforaeth.

# Dechrau canu, dechrau trefnu

**Mae Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, De Cymru, wedi symud i Gaerdydd erbyn hyn ac mae ganddo swyddfa ym Mharc y Waun. Swyddfa dros dro yw hon a bydd yn symud i swyddfeydd mwy parhaol gyda hyn, ond estynna'r Dinesydd groeso cynnes iddo i'n plith. Mae Mr Evans yn bwriadu dychwelyd i'w hen fro i ymgartrefu, i Borth Talbot. Lle cyfleus ar gyfer Caerdydd, 1978 a Dyffryn Lliw, 1980.**

# Dathlu ym Mhenarth

(parhad o dud 1)

unig — felly fe aeth y Cymry Cymraeg ati i agor Capel Bethania.

O'r cymdeithasau eraill yn y dre — y pwysicaf ohonynt oedd y Cymrodorion ac am flynyddoedd sgrifennwyd erthyglau ganddynt yn y papur lleol "The Penarth News" — ond yn anffodus yn ystod yr ail Rhyfel fe ddiflanwyd y Cymrodorion. Erbyn heddiw mae Cymdeithas Gymraeg Penarth wedi llenwi'r bwlch.

Ond i droi'n ôl at y gŵyliau — yr hwyr yn ystod y 1920au fe ailddechreuwyd Eisteddfod Penarth, ac yr oedd mor llwyddiannus yn y flwyddyn 1931 nes i'r papur lleol ei ddisgrifir fel "major music and literary event" yn y dre. Ac roedd trigolion y dre yr adeg hynny eisiau gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r dre. Ond dim ond yn y flwyddyn 1952 y gwahoddodd Cyngor Dosbarth Trefol Penarth yr Eisteddfod i'r dre yn swyddogol. Roeddynt yn aflwyddiannus ar y pryd, ac fe aeth yr Eisteddfod i Gaerffili, lle mabwysiadwyd yr "all Welsh Rule" yno. Mae hi'n rhyfedd sôn, ond am y rheswm yma roedd Cyngor presennol Tref Penarth yn anfodlon i roi cymorth ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol. Serch hynny mae hi'n godiad calon i sylweddoli bod pethau bach Cymraeg yn dychwelyd i fywyd y dre yn ara' deg, ac efallai y cynhelir Gŵyl yn y dyfodol a fydd yn eithaf tebyg i'r ŵyl a gynhaliwyd gynt.

B.R. KEITCH a
MRS M. HUGHES

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*